

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin
Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn, sy'n ymdrin â theori feirniadol, yn craffu ar bolisi ac ymarfer addysgol ar lefel genedlaethol a sefydliadol o ran y modd y maent yn atal neu'n hwyluso cydraddoldeb mewn cymdeithas ac yn y gymuned. Caiff y myfyrwyr eu cyflwyno i gysyniadau craidd cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym myd 'addysg', cyn canolbwyntio ar elfennau allweddol dull beirniadol o ymchwilio i faterion cydraddoldeb, a'r adnoddau ymchwil y gallwch eu defnyddio. Mae'r modiwl yn gofyn i chi herio eich tybiaethau eich hun, a thybiaethau pobl eraill, gyda'r nod o gymryd rhan yn y broses o drawsnewid polisi ac ymarfer addysg i sicrhau mwy o gydraddoldeb a/neu chyfiawnder cymdeithasol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd uwch ar lefel meist, o leiaf, ac, yn ddelfrydol, ar lefel ddoethurol
- profiad o addysgu ar lefel meist ar-lein
- gwybodaeth am theori feirniadol a dulliau ymchwilio ac ymholi sy'n seiliedig ar theori feirniadol
- gwybodaeth am bolisi addysg ac ymarfer mewn amrywiaeth o leoliadau
- gwybodaeth am ddulliau ymchwil i drawsnewid ymarfer, a dealltwriaeth ohonynt
- y gallu i addysgu myfyrwyr gradd meist a meithrin eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth feirniadol
- y gallu i feithrin eu dealltwriaeth o brosesau ymchwil o safbwynt theori feirniadol.
- tystiolaeth o annog deialog, rhyngweithio rhwng myfyrwyr ac ymarfer arloesol mewn perthynas â hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol
- tystiolaeth o ymrwymiad i ymgysylltu â chydweithwyr modiwlau eraill mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol o fewn tiwtorialau ar-lein
- y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu 'cymuned ymarfer' a gwaith cydweithredol, a hynny o fewn y grwpiau tiwtorial a thîm y modiwl.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- ymrwymiad i ddarllen erthyglau newydd ym maes theori feirniadol ac ymarfer cynhwysol ac i rannu'r wybodaeth hon â chydweithwyr a myfyrwyr
- ymrwymiad i gymryd rhan mewn trafodaeth â chymheiriaid am addysgu a dysgu
- ymrwymiad i hwyluso cymorth cyfoedion ymhlith y myfyrwyr
- gwybodaeth am lenyddiaeth a dulliau ymchwil mewnol a/neu sy'n seiliedig ar yr ymarferydd

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.30